**COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR MWYNDERAU**

**A GYNHALIWYD AR 20FED IONAWR 2025**

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Peter Jones

Troy Maclean

Gareth Davies

David Meirion Jones

Geoffrey Jones

Mark Thomas

Rory Frances (ar Zoom)

Sioned Graham-Cameron (Clerc y Dref)

Ellen Pugh (Dirprwy Glerc y Dref)

Gan nad oedd y Cadeirydd yn bresennol, cynigiodd Y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd Y Cynghorydd Gareth Davies bod Y Cynghorydd David Meirion Jones yn cymryd y Gadair ar gyfer y cyfarfod a chytunodd pawb.

**1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Morwenna Pugh, Marc Lloyd Griffiths, Dafydd Dafis a Dewi Prysor Williams.

**2. Datgan Buddiannau**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

**3. Cyfranogiad y Cyhoedd**

Nid oedd unrhyw beth i'w adrodd.

**4. Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Mwynderau 16 Rhagfyr 2024**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Mwynderau a gynhaliwyd ar 16eg Rhagfyr 2024. Cynigiodd Y Cynghorydd Peter Jones ac eiliodd Y Cynghorydd Troy Maclean eu bod yn gywir a chytunodd pawb.

**5. Adroddiad Misol Caeau Chwarae**

Cyflwynwyd adroddiad misol archwilio'r caeau chwarae. Dywedodd Y Cynghorydd Peter Jones bod problem gyda'r coed yng Nghae Baltic. Adrodddodd y Dirprwy Glerc ei bod yn trefnu bod meddyg coed yn dod yno i ddelio gyda'r sefyllfa.

Adroddodd Y Cynghorydd Mark Thomas bod y Berllan wedi derbyn grant ychwanegol gan Cadw Cymru'n Daclus a oedd yn talu am 16 sach o sglodion coed ar gyfer y llwybrau yno. Gofynnodd i'r Cyngor dalu am bren ar gyfer ymylon y llwybrau i gadw'r sglodion yn eu lle, am bris o £274.00. Cynigiodd Y Cynghorydd Peter Jones ac eiliodd Y Cynghorydd Troy Maclean bod y Cyngor Tref yn gwneud hyn a chytunodd pawb.

**6. Adroddiad y Cerddwr Llwybrau**

Derbyniwyd yr adroddiad.

**7. Rhestr Waith y Swyddog Cynnal a Chadw**

Rhoddwyd diweddariad ar waith y Swyddog Cynnal a Chadw ac adroddodd y Dirprwy Glerc ei fod wedi trwsio'r ffens a oedd wedi torri yng Nghae Tanygrisiau.

Gofynnodd Y Cynghorydd Mark Thomas am gael anfon llythyr o ddiolch i gwmni Tom James am eu gwaith da yn y Berllan.

**8. Ceisiadau am Finiau Halen**

Adroddwyd bod ceisiadau newydd wedi dod am finiau halen. Trafodwyd y byddai'n ddefnyddiol llunio map o leoliadau'r biniau a chynigiodd Y Cynghorydd Geoffrey Jones ac eiliodd Y Cynghorydd Gareth Davies bod y Dirprwy Glerc yn llunio map a chytunodd pawb. Yn y cyfamser, cynigiodd Y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd Y Cynghorydd Troy Maclean bod y Cyngor Tref yn prynu 2 fag o halen a bod Y Cynghorydd Peter Jones yn eu dosbarthu i'r ddau leoliad, a chytunodd pawb.

**9. Tir Garregfilltir**

Adroddodd Y Cynghorydd Mark Thomas ei fod wedi cael cwynion pellach mewn perthynas â'r tir. Cynigiodd bod y Cyngor Tref yn ysgrifennu eto at yr Heddlu yn gofyn am rif trosedd am y difrod i'r ffens, eiliodd Y Cynghorydd Troy Maclean a chytunodd pawb. Ar ôl trafodaeth, cynigiodd Y Cynghorydd Troy Maclean ac eiliodd Y Cynghorydd Gareth Davies bod y Cyngor Tref hefyd yn anfon llythyr at Y Cynghorydd Sir Linda Ann Jones ac at Mabon ap Gwynfor.

**10. Cais gan gwmni ffilmio Taran Cyf i ddefnyddio'r Parc**

Adroddwyd bod cais wedi dod gan gwmni ffilmio i ddefnyddio'r Parc ar gyfer gosod dwy babell am gyfnod i warchod offer technegol. Cynigiodd Y Cynghorydd Peter Jones ac eiliodd Y Cynghorydd Geoffrey Jones bod y Cyngor Tref yn caniatáu hynny a chytunodd pawb.

**11. Pistyll Diffwys**

Cyflwynwyd llythyr yn nodi bod Glyn Williams yn rhoi'r gorau i wasanaethu'r pympiau a oedd yn gweithio'r Pistyll ac yn gofyn lle dylid gadael y pympiau. Cynigiodd Y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd Y Cynghorydd Troy Maclean bod y pympiau yn mynd i'r Cwt Canŵs am y tro a bod Y Cynghorydd Troy Maclean yn holi'r coleg yn Nolgellau os hoffent eu cael. Cytunodd pawb. Gofynnwyd i'r Clercod anfon llythyr at Glyn Williams yn diolch iddo am ei waith dros y blynyddoedd.

**12. Diweddariad gan y Dirprwy Glerc**

Rhoddodd y Dirprwy Glerc ddiweddariad ar y gwaith roedd wedi ei wneud dros y mis diwethaf ar faterion Mwynderau a derbyniwyd yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.33pm

DRAFT